



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

CYDBWYLLGOR
ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL
BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY

Dyddiad y cyfarfod: 5 Tachwedd 2021

Aelod/Swyddog Arweiniol: Steve Gadd

Awdur yr Adroddiad: Paula O' Hanlon

Teitl: Canlyniad Cyllideb a Rhagolwg y Cydbwyllgor 2021/22

1. Am beth mae' r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion sefyllfa alldro cyllideb referniw cyfredol yr AHNE ar gyfer 2021/22.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio' r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2021/22.

3. Beth yw' r Argymhellion?

Gofynnir i'r aelodau nodi'r canlyniad ariannol a ragwelir diweddaraf ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1) a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni.

4. Manylion yr Adroddiad.

Mae'r adroddiad yn darparu crynodeb o gyllideb referniw'r AHNE ar gyfer 2021/22 fel y manylir yn Atodiad 1. Gor-wariant o £ 8,750 yw'r rhagolwg cyfredol a ragwelir. Mae'r gorwariant yn ymwneud ag yswiriant mamolaeth o fis Rhagfyr a chostau teithio uwch.

5. Sut mae'n cyfrannu at Flaenoriaethau Cynlluniau Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy?

Bydd rheoli cyllidebau referniw'r AHNE yn effeithiol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun rheoli y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn

sail i weithgaredd ym mhob maes, yn enwedig ein perthnasoedd â phartneriaid cyllido a'n cyd-flaenoriaethau.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gost uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Amh.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

The proposed budget for 2021/22 was brought to the JC meeting in June and approved. Daethpwyd â'r gyllideb arfaethedig ar gyfer 2021/22 i gyfarfod y CB ym mis Mehefin a'i chymeradwyo.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sefyllfa ariannol yr AHNE ar gyfer 2021/22.

O ran blwyddyn ariannol 2021/22 mae cyllid yr AHNE yn dibynnu ar ddefnyddio'r gronfa refeniw a fydd hefyd yn ariannu'r gorwariant a ragwelir. Bydd y cronfeydd refeniw sy'n weddill oddeutu £ 20k, felly mae'n bosibl y bydd pwysau ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r gyllideb gyfredol yn dibynnu ar incwm o CNC a'r 3 Awdurdod Lleol. Bydd unrhyw newidiadau i'r lefelau incwm hyn yn peri risg i gyflawni prosiectau yn y dyfodol a'n gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yng Nghynllun Rheoli AHNE.

11. Pwr i wneud y Penderfyniad

Dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.